**Y PWYLLGOR CYLLID A MATERION CYFFREDINOL** **5 MEHEFIN 2024**

# AGENDA

**DATGAN BUDDIANNAU**

**Atgoffir yr aelodau'n barchus am yr angen i ddatgan unrhyw fuddiant personol a/neu fuddiant sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fusnes i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.**

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau a gyflwynwyd gan aelodau am absenoldeb.

**2. ADRODDIAD TALIADAU A DERBYNIADAU (ATODLEN A)**

Derbyn a phenderfynu ar adroddiad Clerc y Dref (copi ynghlwm).

**3. AWDURDODI TALIADAU / YCHWANEGIADAU I'R RHESTR CYFLENWYR CYMERADWY (ATODLEN B)**

Derbyn a phenderfynu ar adroddiad Clerc y Dref (copi ynghlwm).

**4. PANEL ANNIBYNNOL CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL – LWFANSAU AELODAU 2023/24**

Penderfynu ar adroddiad Clerc y Dref (copi ynghlwm) yn ymwneud â pholisi'r Cyngor Tref ynghylch talu lwfansau yn unol â phenderfyniadau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol.

**5. CYLCH GWAITH PWYLLGORAU AC IS-BWYLLGORAU YN 2024/2025**

Derbyn a phenderfynu ar adroddiad Clerc y Dref (copi ynghlwm) sy'n gofyn am gadarnhau cylch gwaith pwyllgorau ac is-bwyllgorau'r Cyngor.

**6. PENODI CYNRYCHIOLYDD AR SEFYDLIAD ALLANOL**

Penodi cynrychiolwyr ar y Gweithgor Mynwentydd.

**7. YMGYNGHORIAD: CYNGOR SIR DDINBYCH – ADOLYGU TERFYNAU CYFLYMDER 20 MILLTIR YR AWR**

Derbyn neges e-bost ynghylch ymgynghoriad gan Gyngor Sir Ddinbych (copi ynghlwm) yn ymwneud ag adolygu'r cyfyngiadau 20 milltir yr awr a phenderfynu ar ymateb y Cyngor Tref.

**8. EITEM GAN AELOD: CRIBIN Y TRAETH**

Y Cynghorydd K. R. Jones – gofyn am gefnogaeth y Cyngor i holi Cyngor Sir Ddinbych ynghylch pam nad yw cribin y traeth wedi bod yn weithredol.

**9. EITHRIO'R WASG A'R CYHOEDD**

Argymhellir, yn unol ag Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Mynediad i Gyfarfodydd) 1960, eithrio'r Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod ystyried yr eitemau busnes a ganlyn, ar sail cyfrinachedd.

**10. CAIS AM LYTHYR CEFNOGI**

Derbyn adroddiad ar lafar mewn cyfrinachedd gan Glerc y Dref ynghylch cais gan un o drigolion y Rhyl am lythyr cefnogi gan y Cyngor i'w gyflwyno i'w gynorthwyo i sicrhau cyllid ar gyfer ffilm arfaethedig am y Rhyl.

**11. CYNGOR SIR DDINBYCH – YMGYNGHORIAD YNGHYLCH TOILEDAU CYHOEDDUS**

Derbyn manylion yr ymgynghoriad uchod (copi ynghlwm) a phenderfynu ar ymateb y Cyngor Tref.

**[DS. Oherwydd maint y dogfennau ymgynghori byddant ar gael ar ffurf copïau digidol yn unig]**

**12. DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL – ADRODDIAD CORFFORAETHOL BLYNYDDOL CYNGOR TREF Y RHYL 2023/24**

Derbyn a diwygio/cymeradwyo'r adroddiad corfforaethol sy'n ofynnol gan y Cyngor Tref.

**13. COFNODION CYFRINACHOL**

Derbyn y cofnodion a ganlyn er gwybodaeth yr aelodau a chymeradwyo'r argymhellion a gynhwysir ynddynt:

Y Pwyllgor Cynllunio Strategol a Gweithredol - 13 Mai 2024 - Cofnodion rhifau 38 – 43

**14. DIWEDDU'R CYFARFOD**

Y Cadeirydd i ddiweddu'r cyfarfod.